

Morwena Edwards
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Morwena Edwards,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Gwynedd wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydwethredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn:

- gweithgareddau â ffocws ym maes gwasanaethau plant
- gweithgareddau â ffocws ym maes gwasanaethau oedolion hŷn
- ymgysylltu ag oedolion hŷn a'u gofalwyr fel rhan o wahanol gynlluniau a phrosiectau yn y gymuned.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchu ein canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Caiff pobl hŷn a'u gofalwyr fudd o fentrau sy'n hybu eu llesiant a'u hannibyniaeth. Ymysg y rhain mae prosiectau megis 'Dementia Go' a chynlluniau gofal ychwanegol sydd ar waith mewn cymunedau lleol. Cawsom adborth cadarnhaol gan unigolion am y gwahaniaeth sylweddol roedd y mentrau hyn wedi ei wneud i'w bywydau. Dywedodd unigolion wrthym eu bod wedi lleihau ynysu cymdeithasol ac wedi hybu annibyniaeth.

Un o'r heriau a nodwyd yn y gwasanaethau oedolion yw'r oedi y mae pobl yn ei wynebu cyn cael cymorth gofal cartref a chyfarpar, sy'n arwain at oedi cyn i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r awdurdod lleol wedi treialu prosiectau er mwyn ymateb i fregusrwydd y farchnad gofal cartref, ac mae ganddo uchelgeisiau clir i broffesiynoli rolau ym maes gofal cartref a chysoni lefelau cyflogau ym mhob sector erbyn mis Ebrill 2021. Mae hyn yn unol â strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer recriwtio i'r gweithlu ym maes gofal cymdeithasol 2018-2023. Gweledigaeth yr awdurdod lleol yw symud y gwasanaethau gofal cartref tuag at fodel sy'n seiliedig ar leoliad/ardal, a chomisiynu ar sail canlyniadau i unigolion. Mae trafodaethau pellach rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol i ystyried comisiynu gwasanaethau ar y cyd yn mynd rhagddynt, a bydd AGC yn awyddus i ddilyn cynnydd y gwaith hwn.

Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i sicrhau ei fod yn gallu rheoli'r galw presennol, diogelu pobl a chydbwyso risgiau'n effeithiol wrth ddatblygu ei gynllun i drawsnewid gwasanaethau. Roedd y gweithgareddau â ffocws a gyflawnwyd yn 2019 yn dangos bod lle i wella o hyd o ran gwasanaethau diogelu, yn enwedig o ran sicrhau cydymffurfiaeth wrth gofnodi er mwyn adlewyrchu dyletswyddau cyffredinol Deddf 2014. Mae angen i'r awdurdod lleol ddangos ei fod yn dadansoddi'r broses gwneud penderfyniadau yn well ar adeg y cyfeiriad, gan sicrhau ar yr un pryd bod cofnodion amserol a chywir yn cael eu cynnal / cadw.

Yn 2019, cynhaliwyd gweithgareddau â ffocws gennym ym maes gwasanaethau plant. Gwnaethom nodi cryfderau gan gynnwys goruchwyliaeth dda o gynnwys ac ansawdd asesiadau gan reolwyr, a gwaith cadarn o ran dadansoddi achosion a chrynodebau cau

achosion. Gwelsom enghreifftiau da o sgysiau am yr hyn sy'n bwysig, a cheisio barn y plentyn.

Nododd yr arolygiad o wasanaethau plant a gynhaliwyd yn 2018 fod adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion, ond bod angen gwneud gwaith pellach i gryfhau'r trefniadau adolygu ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhoddodd yr awdurdod lleol y wybodaeth ddiweddaraf i AGC ym mis Mawrth 2020 am y cynnydd a wnaed ganddo. Yn amlwg, mae wedi buddsoddi amser ac adnoddau sylweddol yn y broses o asesu'r gwasanaeth hwn a myfyrio ar sut y gellid ei wella, gan ddangos ymrwymiad i ysgogi cynnydd. Mae'r gwaith wedi nodi heriau parhaus wrth roi'r model adolygu newydd ar waith, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Drwy gomisiynu ymgynghorydd annibynnol, ceir adroddiad pellach ar y cynnydd hyd yn hyn, ac ar effaith yr heriau hyn ar y model gwaith newydd. Rydym yn hyderus y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i hysbysu AGC am unrhyw gynnydd pellach.

Pobl

Mae gan Gyngor Gwynedd weithlu sefydlog, medrus a phrofiadol o hyd, ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl wedi gweithio i'r awdurdod lleol ers nifer o flynyddoedd. Mae'r awdurdod lleol yn adrodd ei fod wedi wynebu mwy o heriau o ran recriwtio yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrth AGC am y cymorth proffesiynol cadarnhaol a geir mewn timau a gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon yn eu rolau proffesiynol. Mae hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno ar gyfer yr holl staff ym meysydd cyfathrebu cydweithredol ac ymrwymo i ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Byddwn yn awyddus i weld sut y caiff hyn ei ymgorffori ymhellach mewn ymarfer dros y flwyddyn nesaf.

Un o'r cryfderau a welir yng Ngwynedd yw bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'r gwaith ymgysylltu yn cyfeirio'n gyson at y ffaith eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith yn ystod asesiadau a chysylltiadau dilynol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr awdurdod lleol a'i lwyddiant o ran cyflogi pobl sy'n siarad Cymraeg a chyflawni ei rwymedigaethau yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Fel rhan o strategaeth ataliol 2020-2022 Cyngor Gwynedd, mae wedi datblygu tîm newydd ym maes gwasanaethau plant, sydd wedi bod ar waith ers mis Medi 2019, i ymateb i ymddygiadau rhywiol sy'n niweidiol ac yn achosi problemau. Nod y gwasanaeth arloesol hwn yw sicrhau bod sgiliau amlddisgyblaethol ar gael i ymyrryd mewn ffordd briodol ac amserol er mwyn lleihau nifer yr achosion o gam-drin a cham-fanteisio. Dros y flwyddyn nesaf, bydd AGC yn awyddus i fonitro llwyddiant y trefniadau hyn.

Un o'r heriau a wynebir gan yr awdurdod lleol, fel awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, yw'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau i ddatblygu'r gallu i ofalu am fwy o blant sy'n derbyn gofal. Un o'r strategaethau a ddefnyddir er mwyn cyflawni hyn yw ad-drefnu'r tîm maethu. Enghraifft arall o hyn yw'r ffaith bod gan yr awdurdod lleol bellach swydd benodol ym maes gwaith cymdeithasol sy'n gyfrifol am ystyried pa mor briodol fyddai diddymu Gorchmynion Gofal a gwneud cyfryw geisiadau i'r llys lle y bo'n berthnasol.

Yn ystod 2018 roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhiantu corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019 gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi bod mewn gofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad.

Mae gwasanaethau plant Cyngor Gwynedd wedi ymateb mewn ffordd arloesol i adolygiadau diwedd lleoliad drwy gomisiynu asiantaeth trydydd sector, sef Y Bont, i'w cynnal. Nod defnyddio Y Bont yw hybu didueddrwydd a dwyn ynghyd unrhyw faterion sy'n codi pan fydd lleoliadau yn methu. Mae sianeli sefydledig sy'n galluogi Y Bont i gyfleu ei ganfyddiadau yn hawdd i'r tîm perthnasol, yr uwch-reolwyr a'r panel maethu.

Partneriaethau

Mae'r gwasanaethau oedolion wedi sefydlu pum pwynt gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y sir i wella mynediad at gymorth i bobl yn eu cymunedau lleol. Gwnaethom arsylwi ar un pwynt gwybodaeth, cyngor a chymorth ym Mangor, sef tîm amlddisgyblaethol a gydleolir, er y cydnabyddir nad ydi hyn yn wir am y pwyntiau eraill ar hyn o bryd. Gwelsom fod manteision i'r drefn hon yn ymarferol, gan gynnwys: penderfyniadau priodol ynglŷn â phwy fyddai yn y sefyllfa orau i ymateb, lleihau dyblygu, a chyfathrebu effeithiol er budd unigolion rhwng gweithwyr proffesiynol mewn disgyblaethau amrywiol.

Mae cysylltwyr cymunedol ar gael mewn tri o'r pwyntiau gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y sir, a'r gobaith yw y bydd cysylltwr cymunedol ym mhob un o'r pump. Swyddi a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a noddir gan y trydydd sector yw'r rhain, sy'n dangos ymrwymiad yr awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth.

O ran gwelliannau ym maes gwasanaethau oedolion, dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a deall pryd y gallai eiriolwr gefnogi'r gwaith o bennu a chyflawni canlyniadau. Mae hefyd angen i'r awdurdod lleol wella ei ddealltwriaeth o'i ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag unigolion, a sicrhau bod llais yr unigolion wrth wraidd y gwaith o gynllunio gofal.

Yn ystod ein gweithgaredd â ffocws ym maes gwasanaethau plant, gwelsom nifer o enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol gyda phartneriaid statudol a'r trydydd sector. Roedd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd yng Ngwynedd.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2020-2021 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar bobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru (ACDAP). Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymgyrch gwirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â'r cyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdod Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn